Department of Energy and Climate Change

TUAG AT DDATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL AR BŴER NIWCLEAR

Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriadau ynghylch y Broses Asesiad Lleoli Strategol a'r meini prawf lleoli ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU; ac i'r astudiaeth o effeithiau posib cymhwyso'r meini prawf yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd

ATODIAD C: CANLLAWIAU AR GYFER ENWEBWYR

SWYDDFA DATBLYGU PŴER NIWCLEAR

IONAWR 2009

Atodiad C: Canllawiau ar gyfer enwebwyr

Asesiad Lleoli Strategol ar gyfer Gorsafoedd Pŵer Niwclear Newydd yn y DU

Canllawiau ar lenwi'r Ffurflen Enwebu

Bwriedir y canllawiau hyn ar gyfer y rhai hynny sy'n enwebu safleoedd ar gyfer eu hystyried fel rhan o'r broses Asesiad Lleoli Strategol (SSA) fel y pennir yn Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad. Nid yw'n fwriad i'r canllawiau ddisgrifio'r polisi, a bennir yn Ymateb y Llywodraeth.

Proses yw'r SSA ar gyfer nodi ac asesu safleoedd sy'n strategol addas ar gyfer lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd erbyn diwedd 2025.

Cwestiynau allweddol am enwebiadau SSA

A ellir enwebu safle unrhyw le yn y Deyrnas Unedig?

Am y rhesymau a bennir yn Ymateb y Llywodraeth, ar gyfer safleoedd yng Nghymru a Lloegr yn unig y byddwn yn derbyn enwebiadau.

Beth yw meini prawf gwaharddol a dewisol?

Bydd y Llywodraeth yn cynnal ei hasesiad gan ddefnyddio meini prawf gwaharddol a dewisol, gan ddefnyddio'r cyngor a ddarparwyd gan enwebwyr, sylwadau gan y cyhoedd a chyngor gan arbenigwyr gan gynnwys rheoleiddwyr ac eraill.

Meini prawf gwaharddol yw'r rhai a fyddant, os cânt eu torri, yn bendant yn gwahardd y safle cyfan neu ran ohono rhag cael ei ystyried ymhellach. Meini prawf dewisol yw'r meini prawf hynny y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried yn rhai a allai, naill ai'n unigol neu o'u cyfuno, wneud safle cyfan neu ran o safle yn anaddas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ond sydd angen eu hystyried yn ofalus er mwyn dod i gasgliad ynghylch addasrwydd strategol y safle. Bydd y meini prawf hyn yn rhoi sylw i faterion megis perygl llifogydd, effaith ar safleoedd a warchodir, neu oeri addas. Bydd DECC yn asesu'r materion hyn ar lefel strategol trwy'r SSA. Y mae'n bwysig nodi y bydd y Llywodraeth, trwy'r broses SSA, yn cynnal asesiad strategol lefel uchel na fydd yn cynnwys ymchwiliadau safle-benodol na data safle-benodol manwl, oni bai fod hynny'n berthnasol i'r effaith ar un neu fwy o feini prawf, a bryd hynny dylid darparu gwybodaeth am sut y gellid lliniaru'r effeithiau hynny. Bydd angen i'r IPC ystyried gwybodaeth fanwl safle-benodol a byddai'r wybodaeth yn cael ei nodi, er enghraifft, yn yr Asesiad Effaith Amgylcheddol sy'n dod gydag unrhyw gais am ddatblygu.

Wrth benderfynu a ddylid cynnwys safle sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r meini prawf dewisol sydd yn y rhestr yn yr NPS Niwclear, bydd DECC yn ystyried, *inter alia* :

- a yw'r enwebydd wedi dangos bod yna ragolwg rhesymol o allu lliniaru'n briodol (yn llwyr neu'n rhannol) unrhyw effeithiau andwyol posib mewn perthynas â'r maen prawf neu'r meini prawf dewisol perthnasol;

- ble na ellir lliniaru'n briodol ar gyfer unrhyw effaith (effeithiau) andwyol posib, a ddylai'r effaith andwyol bosib rwystro'r safle rhag cael ei ystyried ar lefel strategol gan roi ystyriaeth i'r Papur Gwyn ar Bŵer Niwclear.

Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl llunio barn derfynol ynghylch pa mor ddichonadwy yw cynigion manwl ar gyfer lliniaru neu union raddau unrhyw effeithiau andwyol posib. Yn hytrach, mater i'r IPC ei ystyried fydd hyn pan fydd yn derbyn cais penodol ar gyfer caniatâd datblygu i adeiladu ar un o'r safleoedd a restrir yn yr NPS Niwclear. Fodd bynnag, byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i'r NPS Niwclear ei gwneud yn eglur y byddai angen i'r IPC, wrth archwilio cais, ystyried y mesurau lliniaru uchod yn fwy manwl cyn gwneud ei benderfyniad mewn perthynas â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cais penodol i adeiladu ar safle a gynhwysir yn y rhestr yn yr NPS Niwclear.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried effaith gronnus y meini prawf dewisol mewn perthynas â safle a enwebir. Lle bo safle yn torri nifer fawr o feini prawf dewisol a hynny'n sylweddol, gall fod yn briodol ei eithrio rhag ei gynnwys yn yr NPS Niwclear.

Beth fydd yn digwydd os bydd rhan o enwebiad yn methu un neu fwy o feini prawf gwaharddol neu ddewisol?

Bydd y Llywodraeth yn cynnal deialog gydag enwebwyr yn ystod yr asesiad. Gall hyn gynnwys trafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn yr enwebiad a gofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad. Er enghraifft, fe all y Llywodraeth ofyn am ragor o fanylion am liniaru ynghylch rhyw faen prawf dewisol. Os bydd y ddeialog hon yn arwain at gais i newid terfyn y safle mewn ymateb i bryderon, bydd y Llywodraeth yn ystyried hynny, er na fydd hyn yn gyfle i enwebwyr gyflwyno enwebiad o'r newydd. Fe fydd rhagor o gyfleoedd i roi sylwadau am unrhyw newidiadau o'r fath pan fydd y Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch yr NPS Niwclear drafft.

Os bydd enwebwyr yn anghytuno â chanlyniadau'r SSA, er gwaethaf y broses ddeialog, bydd cyfle pellach iddynt roi eu safbwyntiau yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr NPS Niwclear.

Beth am feini prawf 'clustnodi i'w hystyried yn lleol'?

Nid oes angen i enwebwyr ddarparu gwybodaeth ar y cam hwn ar gyfer meini prawf sy'n rhai a 'glustnodir i'w hystyried yn lleol' ac felly ni restrir y meini prawf hyn gyda'r ffurflen enwebu. Fodd bynnag, y maent yn ymddangos yn Ymateb y Llywodraeth.

Yn bennaf oherwydd bod angen ymchwiliadau a data safle-benodol manwl, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod hi'n fwy priodol asesu'r meini prawf hyn ar y lefel leol pan fydd manylion y cais penodol am ganiatâd datblygu ar gael. Fel y cyfryw, bydd y meini prawf hyn a "glustnodir i'w hystyried yn lleol" yn ystyriaeth bwysig ar y cam caniatâd datblygu. Nid ydynt yn cynrychioli prawf llai beichus i'r enwebydd ei fodloni ac nid yw baner ystyriaeth leol yn newid eu hanfod gritigol mewn unrhyw ffordd, yn hytrach mae'n cydnabod na all asesiad ar lefel strategol fynd i'r afael â'r materion hyn yn briodol. Bydd yr NPS Niwclear yn adlewyrchu pwysigrwydd y meini prawf hyn.

Pwy all enwebu safle?

Gall unrhyw un enwebu safle. Os yw'r enwebiad ar ran cwmni neu endid corfforaethol arall, bydd ar y Llywodraeth angen tystiolaeth bod gan y sawl sy'n llofnodi'r ffurflen yr awdurdod dyledus i enwebu fel hyn.

Ni fydd unrhyw safleoedd a restrir ar yr NPS Niwclear yn rhai penodol i unrhyw enwebydd, felly nid oes yn rhaid i geisiadau a ddaw i law am ganiatâd datblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ar safle a restrir yn yr NPS Niwclear gael eu cyflwyno gan y person neu'r endid a enwebodd y safle.

Nid oes yn rhaid i enwebydd fod yn berchen ar safle, ond, os nad yr enwebydd yw'r tirfeddiannwr, dylent nodi y bydd angen iddynt arddangos eu bod wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r enwebiad gyda chymunedau sy'n byw yng nghyffiniau'r safle, gan gynnwys perchennog (perchnogion) y safle a enwebir. Mewn rhai achosion, gall y gwaith o godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu gael ei gyflawni gan drydydd partïon, megis darpar weithredwyr, yn hytrach na'r enwebwyr eu hunain.

Bydd yr holl safleoedd a enwebir yn cael eu hystyried dan y broses SSA. Bydd hyn yn cynnwys eu gallu i gael eu lleoli/defnyddio erbyn 2025 a bydd yn rhaid i'r Llywodraeth gael ei bodloni bod y safle yn un credadwy ar gyfer lleoli erbyn 2025 er mwyn iddo gael ei ddwyn yn ei flaen.

A all consortia neu grwpiau o gwmnïau wneud enwebiadau?

Gallant. Mewn achosion o'r fath, dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan gynrychiolydd o bob un o'r cwmnïau perthnasol a dylid darparu tystiolaeth briodol sy'n dangos bod gan bob un a lofnododd y ffurflen enwebu yr awdurdod priodol i wneud hynny.

Sut dylid disgrifio'r ardal sy'n rhan o'r enwebiad?

Disgwylir i enwebwyr ddisgrifio terfynau eu hardal arfaethedig mewn geiriau a nodi amlinell eu safleoedd arfaethedig gan ddefnyddio map Ordnans wrth raddfa 1:10,000. Bwriedir i'r terfyn hwn roi sylw i'r tir sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu un neu fwy o orsafoedd pŵer niwclear newydd yn y safle a bennir ar gyfer ei leoli erbyn diwedd 2025, gan gynnwys storio'r holl weddillion tanwydd a gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir trwy weithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, am rai degawdau hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Ni fwriedir iddo gynnwys tir ar gyfer adeiladu neu ddatgomisiynu.

Mae'n bosib na fyddai ceisiadau gwirioneddol ar gyfer caniatâd datblygu, a fyddai ar gyfer safle penodol, yn cael eu cyflwyno am nifer o flynyddoedd, ac nid yw'n dilyn o anghenraid mai'r enwebydd fyddai'n eu cyflwyno, felly mae'n bosib y bydd angen addasu terfynau'r safle maes o law. I leihau'r tebygolrwydd hwn a chynyddu'r defnydd y gellir ei wneud o'r safle a enwebir, anogir enwebwyr i sicrhau bod y safle a enwebir yn cynnwys o'i fewn yr holl wir gynlluniau safle tebygol a'r holl amrywiadau rhesymol ar y cynlluniau hynny. Y mae felly'n bosib y bydd y safle a enwebir yn fwy na'r gwir gynllun safle a roir gerbron, maes o law, ar gyfer caniatâd datblygu.

Bydd yn rhaid i enwebwyr ddangos ei bod hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod digon o dir o fewn y terfyn a enwebwyd ganddynt i weithredu o leiaf un orsaf bŵer niwclear newydd ac ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir trwy weithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, am rai degawdau hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Bydd disgwyl i weithredwyr roi cyfrif am yr angen hwn wrth bennu'r ardal a enwebir a bydd y Llywodraeth yn ystyried hyn fel rhan o'i hasesiad yn erbyn y meini prawf SSA. Asesir a oes digon o dir ar gael ar gyfer gweithredu'r orsaf honno yn ddiogel, gan gyfeirio'n arbennig at y rheoleiddwyr.

Y mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall lefel diffinio'r prosiect fod yn gyfyngedig adeg yr enwebu. Mae'n bosib o bryd i'w gilydd y bydd angen elfen o hyblygrwydd o ran ffiniau'r safle ar y cam IPC a bydd hyn yn galluogi cynnal trafodaeth fanwl ac ystyrlon gyda phartïon perthnasol ar y lefel leol. Felly fe fydd yr NPS Niwclear yn amlinellu y gall datblygu ddigwydd, mewn rhai amgylchiadau, y tu allan i derfyn y safle a restrir ar yr NPS. Ni fydd unrhyw dir ychwanegol a gynigir ar gyfer datblygu wedi bod yn destun asesiad ar gyfer addasrwydd strategol. Byddem yn disgwyl i unrhyw dir o'r fath fod yn rhan o'r prif ganiatâd cynllunio, a fydd yn cael ei ystyried gan yr IPC.

Mae'r Llywodraeth yn cadw'r hawl, ar y cyd ag enwebwyr, i wneud newidiadau i'r ardal a enwebir, er enghraifft fel y bydd yn cynnwys yr holl wir gynlluniau safle tebygol a'r holl amrywiadau rhesymol ar y cynlluniau hynny. Mae'n bosib hefyd y bydd angen i'r Llywodraeth addasu terfynau ardaloedd a enwebir ble bydd dau neu fwy o enwebiadau yn gorgyffwrdd.

Beth yw Gweithredwr Pŵer Niwclear Credadwy?

Gweithredwr Pŵer Niwclear Credadwy (CNPO) yw un sydd:

- Ar hyn o bryd yn gweithredu gwaith pŵer niwclear unrhyw le yn y byd; ac

- Ar hyn o bryd yn gweithredu gorsaf gynhyrchu trydan sy'n dod dan reoliadau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol y DU, neu, a wnaeth ymrwymiad cyhoeddus i ddod yn weithredwr gorsaf gynhyrchu trydan (gyda'r gallu i gynhyrchu mwy na 50MW) erbyn 2016-2025 mewn marchnad sy'n ddarostyngedig i reoliadau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol y DU.

Beth os na ellir ateb yr holl gwestiynau?

Dylai enwebwyr lenwi cymaint o'r ffurflen enwebu â phosib. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen a'r ffynonellau mwyaf priodol ar gyfer y wybodaeth honno. Fodd bynnag, ar gyfer rhai meysydd, er enghraifft camau lliniaru posib, mater i'r enwebydd yw penderfynu beth sy'n briodol a pherthnasol.

Os na fydd enwebydd yn darparu digon o wybodaeth, gall hyn arwain at gais am ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, dylai enwebwyr fod yn ymwybodol y gall methu darparu digon o dystiolaeth arwain at osod nifer o amodau ynghlwm wrth y penderfyniad ynghylch addasrwydd strategol y safle ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd, neu olygu y bydd yr enwebiad yn cael ei wrthod yn gyfan gwbl.

Rhagor o wybodaeth ac arweiniad

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses enwebu trwy e-bostio SSAnominationsu@decc.gsi.gov.uk.

Pa ddogfennau ategol sydd eu hangen?

Mewn llawer o achosion, mae'r ffurflen enwebu yn egluro pa ddogfennau ategol fydd eu hangen. Mewn achosion eraill, fe fydd yn dibynnu ar fanylion yr enwebiad (er enghraifft, y camau lliniaru penodol fydd eu hangen). Dylid cynnwys manylion y dogfennau ategol sy'n cael eu darparu yn y tabl ar ddiwedd pob cwestiwn ac yn y rhestr gyffredinol o ddogfennau ategol a ddarperir yn Adran F y ffurflen enwebu. Dylai enwebwyr hefyd roi cyfeirnod dogfen (e.e. "001") ar gyfer pob dogfen ategol unigol a gynhwysir a dylai'r cyfeirnodau hyn ymddangos yn y tablau perthnasol a chael eu nodi'n glir ar flaen y dogfennau ategol eu hunain.

Sawl copi o'r ffurflen gyflawn a'r dogfennau ategol sydd eu hangen?

A wnewch chi gyflwyno'r gwreiddiol a 3 chopi o'r ffurflen enwebu a'r holl ddogfennau ategol eraill. Anfonwch y wybodaeth angenhreidiol atom mewn amlen neu becyn dan sêl gyda "Proses Enwebu SSA Nomination Process" wedi'i nodi'n eglur ar y blaen.

A wnewch chi hefyd ddarparu copi electronig o'r ffurflen a'r holl ddogfennau ategol, ar ddisg lle bo modd. Os yn bosib, hoffem dderbyn y dogfennau hyn ar ffurf ffeiliau PDF glân. Fel arall, a wnewch chi ddarparu ffeiliau Microsoft Word (2003 neu gynt).

A gawn ni gyflwyno enwebiadau trwy e-bost?

Oherwydd nifer y dogfennau ategol sydd eu hangen, byddai'n llawer gwell gennym dderbyn enwebiadau ar bapur (gyda ffeiliau electronig ar ddisg gyda nhw).

Beth yw'r dyddiad cau?

Dylai'r ffurflenni enwebu cyflawn a'r holl ddogfennau ategol ein cyrraedd erbyn 5pm ar ddydd Mawrth, 31 Mawrth 2009.

I ble y dylid anfon ffurflenni enwebu cyflawn?

Y cyfeiriad ar gyfer enwebiadau yw:

Enwebiadau SSA
Bay 128
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET
ssanominations@decc.gsi.gov.uk

Sut bydd y Llywodraeth yn ymdrin â gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol?

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y broses hon yn eglur ac agored. Tybir felly y bydd y Llywodraeth yn gwneud yr holl wybodaeth a ddarperir gan enwebwyr fel rhan o'r broses enwebu ar gael i'r cyhoedd, heblaw lle bo angen neilltuol i gadw cyfrinachedd (er enghraifft oherwydd diogelu data, seciwriti neu gyfrinachedd masnachol). Os bydd enwebwyr o'r farn fod unrhyw wybodaeth a ddarparant yn fasnachol gyfrinachol ac na ddylid ei chyhoeddi, yna dylent wneud hynny'n eglur ar y ddogfen berthnasol neu ran berthnasol y ffurflen enwebu. Dylent hefyd ddarparu dwy fersiwn electronig o'r dogfennau – un ar gyfer ei chyhoeddi (gyda'r wybodaeth wedi'i hepgor neu wedi'i chuddio mewn du) ac un nad yw ar gyfer ei chyhoeddi.

Canllawiau ar gyfer llenwi adrannau penodol o'r ffurflen

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
A1	Teitl y safle a disgrifiad mewn geiriau	Dylai enwebwyr gynnwys teitl ar gyfer y safle y maent yn ei enwebu a disgrifiad byr o'r terfynau mewn geiriau. Dylai hyn egluro pa dir sy'n cael ei gynnwys a pha dir nad yw'n cael ei gynnwys. Wrth wneud hyn, gall fod yn ddefnyddiol cynnwys cyfeirnodau grid, cyfeirnodau GPS neu wybodaeth ofodol arall o'r fath. Bwriedir i'r terfyn hwn ar gyfer y safle a enwebir gwmpasu'r tir sydd ei angen ar gyfer gweithredu un neu fwy o orsafoedd pŵer niwclear newydd yn y safle a bennir ar gyfer lleoli erbyn diwedd 2025. Ni fwriedir iddo gynnwys tir ar gyfer adeiladu a datgomisiynu. Mae'n bosib na fydd ceisiadau gwirioneddol am ganiatâd datblygu, a fydd ar gyfer safle penodol, yn cael eu cyflwyno am nifer o flynyddoedd, ac nid yw'n dilyn o anghenraid mai'r enwebydd fydd yn eu cyflwyno, felly mae'n bosib y bydd angen addasu terfynau'r safle maes o law. I leihau'r tebygolrwydd hwn a chynyddu'r defnydd y gellir ei wneud o'r safle a enwebir, anogir enwebwyr i sicrhau bod y safle a enwebir yn cynnwys o'i fewn yr holl wir gynlluniau safle tebygol a'r holl amrywiadau rhesymol ar y cynlluniau hynny. Y mae felly'n bosib y bydd y safle a enwebir yn fwy na'r gwir gynllun safle a roir gerbron, maes o law, ar gyfer caniatâd datblygu. Mewn ymateb i adran D9, bydd gofyn i enwebwyr ddangos ei bod hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod digon o dir o fewn y terfyn a enwebwyd ganddynt i weithredu o leiaf un orsaf bŵer niwclear newydd. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd enwebwyr gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn darparu ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir yn ystod gweithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, am rai degawdau hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Bydd disgwyl i enwebwyr roi cyfrif am hyn wrth bennu'r ardal a enwebir a bydd y Llywodraeth yn ystyried hyn wrth gynnal ei hasesiad yn erbyn y meini prawf SSA. Asesir a oes digon o dir ar gael ar gyfer gweithredu'r orsaf honno'n ddiogel, gan gyfeirio'n arbennig at y rheoleiddwyr.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Y mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall lefel diffinio'r prosiect fod yn gyfyngedig adeg yr enwebu. Mae'n bosib o bryd i'w gilydd y bydd angen elfen o hyblygrwydd o ran terfynau'r safle ar y cam IPC a bydd hyn yn galluogi cynnal trafodaeth fanwl ac ystyrlon gyda phartïon perthnasol ar y lefel leol. Felly fe fydd yr NPS Niwclear yn esbonio y gall datblygu ddigwydd, mewn rhai amgylchiadau, y tu allan i derfyn y safle a restrir yn yr NPS. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r hawl, ar y cyd ag enwebwyr, i wneud newidiadau i'r ardal a enwebir, er enghraifft fel y bydd yn cynnwys yr holl wir gynlluniau safle tebygol a'r holl amrywiadau rhesymol ar y cynlluniau hynny (ond dim mwy na hyn). Mae'n bosib hefyd y bydd angen i'r Llywodraeth addasu terfynau ardaloedd a enwebir ble bydd dau neu fwy o enwebiadau yn gorgyffwrdd.
A2	A2 Terfyn y safle ar fap Arolwg Ordnans 1:10,000 i ddangos terfyn y safle	Dylai'r enwebiad ddangos yr ardal a enwebir trwy gyfrwng terfyn ar fap Arolwg Ordnans wrth raddfa 1:10,000. Dylai'r terfyn ddangos yn glir pa dir sy'n cael ei gynnwys yn yr enwebiad a pha dir nad yw'n rhan ohono.
A3	Llythyr cefnogi gan Weithredwr Pŵer Niwclear Credadwy (neu ddatganiad gan yr enwebydd yn dangos bod yr enwebiad yn un credadwy ar gyfer lleoli erbyn 2025, yn ogystal ag arwydd a oes potensial ar gyfer lleoli'n gynnar ar y safle)	Dylai enwebiadau gynnwys naill ai: o y llythyr o gefnogaeth gan Weithredwr Pŵer Niwclear Credadwy (CNPO);neu o ddatganiad gan yr enwebydd yn dangos bod yr enwebiad yn un credadwy o safbwynt lleoli (h.y. dechrau cynhyrchu trydan) un neu fwy o orsafoedd pŵer niwclear newydd ar y safle erbyn diwedd 2025. Dylai unrhyw lythyr gan CNPO gynnwys enw cyswllt, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost unigolyn o fewn y CNPO y gall y Llywodraeth gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth. Bydd y Llywodraeth yn derbyn llythyrau cefnogi ar wahân gan ddau wahanol gwmni sydd gyda'i gilydd yn bodloni gofynion y diffiniad o CNPO fel y'i diffinnir yn y ddogfen ymgynghorol ac fel yr adlewyrchir yn ein canllawiau yn Atodiad C, gan gydnabod y gall hyn alluogi consortia credadwy i gael mynediad i'r broses SSA.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		O ran y llythyr cefnogi gan y CNPO neu'r datganiad gan yr enwebydd ei hun, ni ddylai hwn geisio dyblygu gwybodaeth arall a gynhwysir yn yr enwebwiad. Yn hytrach, mae'n rhaid iddo ddangos i ba raddau y gellir cyflawni'r amserlen ar gyfer lleoli erbyn diwedd 2025. Felly dylai ganolbwyntio ar ffactorau megis gallu adeiladu, cynllunio'r safle, comisiynu ac amseru posib unrhyw seilwaith trawsyrru a dosbarthu fyddai'n angenrheidiol er mwyn gwneud y safle yn weithredol a materion trwyddedu. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr ac mae'r Llywodraeth yn chwilio am ddatganiad sy'n dangos bod amserlen o ddiwedd 2025 yn gredadwy, yn hytrach na chynllun prosiect manwl, ac ni fydd angen hynny fel arfer. Rhaid i'r Llywodraeth gael ei bodloni bod y safle yn un credadwy ar gyfer lleoli erbyn 2025, a bydd methu gwneud hynny yn golygu na fydd enwebiad yn cael ei gynnwys yn yr SSA. Os gellir dangos bod safle yn un credadwy ar gyfer yr amserlen leoli erbyn 2025 bydd hynny'n ddigon i enwebiad gael ei ystyried ar gyfer addasrwydd strategol dan y broses SSA. Fodd bynnag, o gofio pwysigrwydd cwrdd â'n hamcanion o ran newid hinsawdd, byddai'r Llywodraeth yn croesawu gwybodaeth am safleoedd y gellid eu lleoli'n gynnar. Felly dylai'r llythyr cefnogi gan y CNPO neu ddatganiad yr enwebydd ei hun ystyried hefyd a ellid lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle cyn 2025, yr amserlenni posib ar gyfer lleoli'n gynnar fel hyn, amcangyfrif o broffil y gallu cynhyrchu cynnar y gellid ei gyflawni ar y safle a enwebir a'r rhesymau dros y datganiad hwn.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
A4	Codi ymwybyddiaeth gyda chymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r safle a enwebir (gan gynnwys perchennog/ perchnogion tir y gallai hyn effeithio arnynt)	Rhaid i'r enwebiad ddangos bod yr enwebydd neu, lle bo'n gymwys, trydydd parti wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth am yr enwebiad gyda chymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r safle, gan gynnwys perchennog/ perchnogion y safleoedd a enwebir. Fe fydd yna nifer o ffyrdd y gellid gwneud hyn. Man lleiaf, dylai enwebwyr sicrhau bod yr awdurdod lleol, RDA ac unrhyw berchnogion tir yn ymwybodol o'u henwebiad, a bod wedi cymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'w henwebiad yn y gymuned ehangach trwy hysbysebion mewn papurau newyddion lleol. Yn achos safleoedd niwclear sydd eisoes yn bodoli, dylai enwebwyr ystyried codi ymwybyddiaeth gyda grŵp rhanddeiliaid presennol y safle. Dylai enwebwyr hefyd ystyried trafod eu cynlluniau codi ymwybyddiaeth gyda'r awdurdodau lleol perthnasol a dylent roi copi caled o'u henwebiad i'r awdurdod(au) lleol perthnasol. Dylid cynnwys manylion yr hyn a wnaed ar y ffurflen enwebu. Mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth (megis cyfarfodydd) rhaid i enwebwyr sicrhau bod y daflen ganlynol ar gael: *New nuclear power stations:How sites will be chosen and how you can have your say* neu gyfeirio'r rhai sy'n mynychu at y daflen, sydd i'w chael yn www.nuclearpowersiting.decc.gov.uk Gallwch anfon e-bost at ssanominations@decc.gsi.gov.uk i gael copïau. Yn yr hysbysebion a drefnir gan enwebwyr, rhaid i enwebwyr gyfeirio at y ffaith fod gwybodaeth am sut i gael dweud eich dweud wrth y Llywodraeth i'w chael yn www.nuclearpowersiting.decc.gov.uk . Os bydd y Llywodraeth o'r farn nad yw'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth o'r enwebiad gyda chymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r safle, gan gynnwys perchennog/ perchnogion y safleoedd a enwebir, yn ddigonol (neu na ddarperir tystiolaeth addas), efallai na fydd hi'n bosib i enwebiad neilltuol gael ei ystyried ymhellach.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
A5	Ystyried safleoedd gwahanol	Er mwyn sicrhau y rhoddwyd digon o ystyriaeth ar y lefel strategol i safleoedd gwahanol ar gyfer adeiladu niwclear o'r newydd, byddai'r Llywodraeth yn dymuno gweld enwebwyr yn amlinellu eu proses wneud penderfyniadau wrth enwebu'r safle hwn, yn hytrach nag unrhyw safleoedd gwahanol. A wnewch chi nodi'r broses a ddilynwyd gennych wrth ddewis y safle hwn ar gyfer ei enwebu, yn ogystal â'r rhesymau a achosodd i chi wneud y dewis hwn.
B1	Enw a chyfeiriad llawn yr enwebydd yn ogystal â manylion rhywun y gallwn gysylltu â nhw ynghylch yr enwebiad	Rhaid i'r ffurflen enwebu egluro pwy sy'n gwneud yr enwebiad, boed yn unigolyn, cwmni neu gorff corfforaethol arall.
B2	Manylion unrhyw gwmni daliannol (os yw'n berthnasol)	Os daw'r enwebiad gan gwmni a'i fod yn is-gwmni o gwmni daliannol neu riant gwmni, dylai'r ffurflen enwebu nodi manylion y cwmni daliannol neu'r rhiant gwmni hefyd.
B3	Manylion rhywun y gallwn gysylltu â nhw ynghylch eich enwebiad	Mae'n bosib y bydd gan y Llywodraeth ymholiadau neu bwyntiau i'w trafod ynghylch yr enwebiad yn ystod y cyfnod asesu. Felly **rhaid** i enwebwyr roi cyswllt y gall y Llywodraeth gysylltu â nhw yn ystod y broses asesu. Dylai hwn neu hon fod yn rhywun y gall y Llywodraeth gysylltu'n uniongyrchol â nhw ac sydd â'r awdurdod i weithredu ar ran yr enwebydd. **Rhaid** i enwebwyr roi gwybod i'r Llywodraeth am unrhyw newidiadau yn y manylion a roddir yn B1 i B3, sy'n digwydd yn ystod y cyfnod asesu, gan gynnwys newid ym mherchnogaeth y cwmni neu'r bwriad i'r safle a enwebir gael ei ddatblygu gan gwmni heblaw'r enwebydd sy'n cyflwyno'r enwebiad hwn.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
C1	(Maen prawf gwaharddol) Nid oes angen gwybodaeth gan enwebwyr am risg Ddemograffig gan y caiff ei hasesu gan yr NII ar sail y terfyn a bennir yn adran A	Er dibenion y broses SSA, bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r meini prawf lleoli Lled-Drefol (fel y'u pennir yn y ddogfen ymgynghorol fel maen prawf gwaharddol). Gan mor gymhleth yw'r cyfrifiad hwn mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nad yw'n rhesymol disgwyl i enwebwyr ei gynnal eu hunain; yn hytrach bydd y cyfrifiadau yn cael eu cynnal gan yr NII ar gyfer ardal y safle a enwebir. **Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf gwaharddol hwn.** Fodd bynnag, fe'u hanogir i ystyried materion demograffeg ac agosrwydd at boblogaeth wrth benderfynu lle i leoli'r safle y maent yn ei enwebu.
C2	(Maen prawf gwaharddol) Nid oes angen gwybodaeth gan enwebwyr am agosrwydd y safle at weithgareddau milwrol gan y caiff ei asesu gan yr MoD ar sail y terfyn a bennir yn adran A	Mae dau bwrpas i'r maen prawf hwn. Yn gyntaf, ceisio osgoi'r peryglon allanol i ddiogelwch gorsaf bŵer niwclear a allai gael eu hachosi gan weithgareddau milwrol gerllaw. Yn ail, sicrhau nad yw lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn cael effaith andwyol ar allu'r lluoedd arfog i gynnal hyfforddiant ac ymgyrchoedd. Bydd y Llywodraeth yn gwrthod enwebiadau (yn gyfan neu'n rhannol) os bydd y safle: o o fewn rhai Ardaloedd Hyfforddi Tactegol Hedfan Isel Milwrol a Meysydd Arfau Awyr; o o fewn y gofod awyr o amgylch maes awyr MOD neu faes awyr a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau amddiffyn a gynhwysir o fewn Parth Traffig Awyr Milwrol (MATZ) dynodedig; o o fewn y gofod awyr o amgylch maes awyr MOD neu faes awyr a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau amddiffyn a gynhwysir o fewn Parth Traffig Awyr (ATZ) dynodedig;

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		o o fewn neu'n effeithio ar y defnydd a wneir o ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer tanio byw neu weithgareddau hyfforddiant milwrol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) yr ardaloedd canlynol: Ardal Hyfforddi Aldershot a Minley, Ardal Hyfforddi Hankley ac Elstead Commons, Ardal Hyfforddi Leek ac Upper Hulme, Ardal Hyfforddi a Maes Tanio Longmore, Ardal Hyfforddi Otterburn, ac Ardal Hyfforddi Salisbury Plain; o o fewn y parthau gwarchod ffrwydrol o amgylch cyfleusterau storio ffrwydron yr MOD. O gofio'r ystyriaethau diogelwch sy'n ymwneud â'r wybodaeth ar gyfer y maen prawf hwn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nad yw'n rhesymol mynnu bod enwebwyr yn e darparu eu hunain; yn hytrach, cynhelir yr asesiad gan yr MoD ar gyfer ardal y safle a enwebir. **Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf gwaharddol hwn.** Fodd bynnag, fe'u hanogir i wirio eitemau ar y rhestr uchod ar gyfer eu safle (a bennir yn A1 ac A2), sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae'n bosib cael y wybodaeth hon gan y CAA a gwasanaeth gwybodaeth yr UK Aeronautical Information Service.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
D1	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth am lifogydd, ymchwydd storm a tswnami ac (os oes angen) y potensial ar gyfer lliniaru'n briodol	Bydd y broses SSA yn ystyried materion llifogydd o ddau safbwynt. Yn gyntaf, y bygythiadau posib i ddiogelwch gorsaf bŵer niwclear newydd os caiff ei lleoli mewn ardal sy'n agored i risg llifogydd. Yn ail, effeithiau ehangach gwrthfesurau diogelu rhag llifogydd ar ardaloedd sydd o amgylch safleoedd posib ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Rhaid i bob datblygiad newydd yn Lloegr, gan gynnwys seilwaith megis gorsafoedd pŵer niwclear newydd, roi ystyriaeth ddyledus i'r polisïau a ddisgrifir yn Natganiad Polisi Cynllunio 25 (PPS25). Mae PPS25[41] yn amlinellu sut y dylid ystyried risg llifogydd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Nod y polisi yw sicrhau bod datblygu yn ddiogel heb gynyddu risg llifogydd mewn mannau eraill a, lle bo modd, i leihau risg llifogydd yn gyffredinol. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cymhwyso'r profion PPS25 ar lefel strategol yn yr SSA gan nad ydym yn disgwyl y bydd y wybodaeth fanwl safle-benodol ar gael ar gyfer yr asesiad hwn. Ar gyfer enwebiadau yn Lloegr, disgwylir i enwebwyr ddefnyddio'r mapiau llifogydd sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd i ddarparu gorolwg strategol o berygl llifogydd ar gyfer y safle. http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/31656.aspx Ni ddefnyddir y map llifogydd hwn ar gyfer dibenion cynllunio manwl lleol ond fe'i ystyrir yn gam cyntaf o ran nodi a oes perygl llifogydd yn y safle.

41 http://www.communities.gov.uk/planningandbuilding/planningpolicyguidance/planningpolicystatements/planningpolicystatements/pps25

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Rhaid i bob datblygiad newydd yn Lloegr, gan gynnwys seilwaith megis gorsafoedd pŵer niwclear newydd, roi ystyriaeth ddyledus i'r polisïau a ddisgrifir yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15[42]. Yng Nghymru, y map cyfyngiadau ar gyfer dibenion cynllunio manwl yw map cyngor datblygu TAN 15 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, nid y Map Llifogydd a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Fodd bynnag, er dibenion yr SSA, ar gyfer enwebiadau yng Nghymru dylai enwebwyr ddarparu'r ddau, sef y map llifogydd sydd ar gael yn gyhoeddus gan Asiantaeth yr Amgylchedd a chopïau o'r map cyngor datblygu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y safle, sydd i'w gael yn y swyddfa gynllunio leol neu mewn llyfrgelloedd lleol. Pan fydd safle mewn ardal â risg uchel o lifogydd, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr ddangos pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y byddai'n bosib diogelu gorsaf bŵer niwclear o fewn y safle a enwebir yn erbyn y risgiau llifogydd hynny, gan gynnwys effeithiau posib newid hinsawdd, gydol hyd oes yr orsaf. Rhaid i hyd oes yr orsaf gynnwys darparu ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir yn ystod gweithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Yn arbennig, dylai enwebwyr amlinellu: o y mesurau diogelu fydd, yn eu barn nhw, yn briodol er mwyn diogelu'r safle rhag llifogydd; o a fyddai'r mesurau diogelu yn effeithio ar ardaloedd dynodedig eraill; o y tybiaethau a wnaethpwyd am ddiogelu rhag llifogydd a rheoli dŵr oddi ar y safle ac, yn enwedig, y ddibyniaeth ar fesurau diogelu rhag llifogydd sydd dan reolaeth partïon eraill, megis tirfeddianwyr cyfagos neu gyrff llywodraethol; o y potensial y gallai llifogydd rwystro mynediad i'r safle o ran gweithredu'n arferol a gwasanaethau argyfwng; ac o a yw datblygu gorsaf niwclear newydd ar y safle (gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru tebygol) yn debygol o gynyddu'r risg llifogydd yn rhywle arall.

[42] http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan15?lang=en

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Dylai enwebwyr roi sylwadau cyfannol am y risg llifogydd mewn safleoedd tebygol ar gyfer datblygu gorsaf bŵer niwclear o fewn y safle gan gydnabod y gall llifogydd ddod o afonydd ac o'r môr (gan gynnwys ymchwydd storm), yn uniongyrchol o lawiad ar wyneb y tir ac o ddŵr daear yn codi, carthffosydd a systemau traenio gorlawn a ffynonellau eraill – ac y gall ffynonellau o'r fath ddigwydd yn gyfochrog â'i gilydd a bod raid ystyried yr effaith ar y cyd. Yn ychwanegol, dylai enwebwyr esbonio pam mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod y safle a enwebir yn debygol o basio'r prawf dilyniannol sy'n mynnu bod datblygiadau yn cael eu lleoli yn y parth lle mae'r risg isaf bosib o lifogydd oni bai fod yna ddim dewis rhesymol arall. Dylai enwebwyr (a maes o law, datblygwyr) fod yn ystyriol hefyd o'r rhagfynegiadau diweddaraf ynghylch newid hinsawdd ac oes hir bosib unrhyw orsaf niwclear newydd. Mae Atodiad B y PPS25 yn cynnwys arweiniad polisi cyfredol Defra ar newid hinsawdd tan 2115 a dylai enwebwyr roi cyfrif am hyn yn eu mesurau diogelu. Yn yr un modd, dylid defnyddio Atodiad 2 y TAN 15 fel arweiniad ar gyfer enwebiadau yng Nghymru. Yn ychwanegol, dylai enwebwyr nodi sut y gellid gwarchod unrhyw ddatblygiadau gorsaf bŵer tebygol o fewn y safle rhag peryglon tswnami. Ceir manylion y risg tswnami cyfredol i'r DU ar wefan Defra. http://www.defra.gov.uk/environ/fcd/emergencyplanning/tsunami.htm

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth am erydiad arfordirol neu risg oherwydd sefyllfaoedd eraill a allai newid y dirwedd (os oes angen) a'r potensial ar gyfer lliniaru'n briodol	Ar gyfer yr holl safleoedd sydd ar yr arfordir neu'n agos at yr arfordir, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr ddangos pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y gellid diogelu gorsaf bŵer niwclear o fewn y safle yn erbyn erydiad arfordirol, a sefyllfaoedd eraill a allai newid y dirwedd, gan gynnwys effeithiau posib newid hinsawdd, gydol oes yr orsaf. Rhaid i hyd oes yr orsaf gynnwys darparu ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir yn ystod gweithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Yn arbennig, dylai enwebwyr amlinellu: o y gwrthfesurau y gellid eu cymryd i ddiogelu unrhyw orsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle a enwebir rhag effeithiau erydiad arfordirol neu sefyllfaoedd eraill a allai newid y dirwedd; o y ddibyniaeth ar fesurau diogelu'r arfordir allai fod dan reolaeth partïon eraill, megis tirfeddianwyr cyfagos neu gyrff y llywodraeth; ac o y potensial i'r risgiau hyn rwystro mynediad i'r safle o ran gweithredu'n arferol a mynediad i wasanaethau argyfwng. Wrth fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn, neu fel arall, dylai enwebwyr ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth i: o effeithiau ehangach unrhyw wrthfesurau diogelu'r arfordir ar ardaloedd o amgylch datblygiad gorsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle; o rhyngweithio gyda'r cynlluniau lleol a rhanbarthol ar gyfer diogelu'r arfordir a rheoli dyfrffyrdd; ac o unrhyw ddibyniaeth ar gynlluniau trydydd parti ar gyfer diogelwch sy'n dybiedig.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
D3	(Maen prawf dewisol) Nid oes angen gwybodaeth gan enwebwyr am agosrwydd y safle at gyfleusterau peryglus gan y caiff hyn ei asesu gan yr HSE ar sail y terfyn a bennir yn adran A. Mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon ar gyfer gwrthfesurau neu fesurau lliniaru, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.	Ar gyfer safleoedd mawr sy'n dod dan y Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999 (a bennir yn ôl mathau o gemegion a'r stocrestr) mae rhai rhwymedigaethau cyfreithiol yn perthyn i'r safleoedd "COMAH " hyn. Mae angen penodol i ymgynghori ynghylch unrhyw ddatblygiad arfaethedig o fewn y parth ymgynghori a ddiffinnir ar gyfer pob safle COMAH. Y mae yna hefyd nifer fawr o safloedd COMAH "haen is" lle mae stocrestrau llai o sylweddau peryglus. Gall y rhain hefyd olygu bod yn rhaid ymgynghori, ond bod y parthau a ddiffinnir yn llawer llai. Mae'n bosib y bydd safleoedd a enwebir yn anaddas ar gyfer datblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd os ydynt o fewn pellter ymgynghori safle peryglus arfaethedig neu un sydd eisoes yn bodoli. Mater i'r HSE fyddai penderfynu a ddylai gorsafoedd pŵer niwclear sydd eisoes yn bodoli neu safleoedd lle mae datgomisiynu ar y gweill, fod yn cael eu hystyried yn gyfleusterau diwydiannol peryglus a lefel y parth ymgynghori[43] a all fod yn briodol. Fe fydd hyn yn dibynnu ar natur y safle, gan gynnwys presenoldeb deunyddiau peryglus. Mae'n annhebygol y byddai agosrwydd o'r fath yn eithrio safle rhag cael ei ystyried ymhellach, ar yr amod y gellir sefydlu mesurau lliniaru priodol. Bydd y Llywodraeth yn manteisio ar gyngor gan yr HSE wrth ystyried lefel y perygl ac a yw hi'n debygol, o gofio bod y broses SSA yn un ar lefel strategol, y gall gwrthfesurau addas liniaru unrhyw risg. O gofio'r ystyriaethau diogelwch ynghlwm â'r wybodaeth ar gyfer y maen prawf hwn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nad yw'n rhesymol mynnu bod enwebwyr yn ei darparu eu hunain. Yn hytrach bydd yr asesiad yn cael ei gynnal gan yr HSE ar gyfer ardal y safle a enwebir.

[43] Mae angen penodol ar gyfer ymgynghori ynghylch unrhyw ddatblygiad arfaethedig o fewn y parth ymgynghori a ddiffinnir ar gyfer pob safle COMAH – sef safleoedd mawr sy'n dod dan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999 (a bennir yn ôl mathau o gemegion a'r stocrestr)

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf dewisol hwn. Fodd bynnag, fe'u hanogir i wirio pa mor agos yw cyfleusterau peryglus at y safle a enwebir (fel y pennir yn A1 ac A2), sef gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus. Gall enwebwyr gael y wybodaeth hon gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae gan yr awdurdod lleol restr o safleoedd perygl sylweddol a phibellau hefyd, a'r cyfyngiadau a osodir ar y parthau ymgynghori a bennir gan HSE. Mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon o blaid gwrthfesurau neu liniaru, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.
D4	(Maen prawf dewisol) Nid oes angen gwybodaeth gan enwebwyr am beryglon oherwydd symudiad awyrennau sifil gan y caiff hyn ei asesu gan yr HSE ar sail y terfyn a bennir yn adran A. Mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon ar gyfer gwrthfesurau neu fesurau lliniaru, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.	Bydd rhai ardaloedd a pharthau risg uwch yn cael eu diffinio er mwyn diogelu seilwaith a lleihau anafiadau i bobl petai yna ddamwain awyr. Mae enghreifftiau o ardaloedd o'r fath yn cynnwys: o Parthau Diogelu'r Cyhoedd (PSZ) o amgylch meysydd awyr masnachol gyda llawer o draffig. O'r 150 maes awyr trwyddedig yn y DU, mae PSZ ar gyfer deg ar hugain ohonynt ar hyn o bryd. Oddi mewn i'r parthau hyn, mae canllawiau cynllunio yn gyffredinol yn rhagdybio yn erbyn datblygiadau newydd ac mae'n debyg y byddent yn golygu y gwrthodid cymeradwyo safle niwclear newydd o fewn PSZ; o Cynlluniau Gwarchod Maes Awyr, ar gyfer pob maes awyr trwyddedig, a gyflwynir gan weithredwr y maes awyr i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol. Bydd unrhyw gais cynllunio ar gyfer adeiladu yn yr ardaloedd hyn yn wynebu asesiad risg gwrthdrawiad annibynnol a rhaid iddynt hefyd fodloni gofynion gwarchod y maes awyr. Bydd meysydd awyr didrwydded, megis rhai safleoedd glanio ar gyfer hofrenyddion, yn cael eu hannog i gyflwyno cynlluniau ar gyfer cynllun gwarchod maes awyr ond ni ellir eu gorfodi i wneud hynny. Fodd bynnag, fe fydd y rhan fwyaf yn cyflwyno cynlluniau gan fod hyn yn gwarchod eu gallu i weithredu'n ddiogel;

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		o Ardaloedd Rheoli Traffig Awyr, sef ardaloedd o gwmpas meysydd awyr lle mae'r traffig yn cael ei reoli i mewn ac allan o'r maes awyr hwnnw. Gall ardaloedd gyda llawer iawn o hedfan gael eu creu oherwydd y ffordd y bydd awyrennau yn cael eu cyfeirio i mewn ac allan o'r meysydd awyr cyfagos. o Trefniadau uwch ar gyfer y gofod awyr o amgylch meysydd awyr ac ardaloedd eraill lle gwyddys bod gweithgarwch traffig awyr. Gall ardaloedd gyda llawer iawn o draffig awyr gael eu creu oherwydd cyfyngiadau ar lwybrau awyrennau i mewn ac allan o feysydd awyr cyfagos oherwydd lleoliad gorsaf bŵer niwclear. Dylid nodi hefyd y byddai parthau gwahardd hedfan o amgylch gorsafoedd pŵer niwclear, a sefydlwyd gan Reoliadau Awyrdwyaeth (Cyfyngu ar Hedfan) (Safleoedd Niwclear) 2007, yn gallu effeithio ar weithrediad diogel meysydd awyr cyfagos neu ardaloedd rheoli traffig awyr. Mae'r Llywodraeth yn cydnaobod nad yw'r holl wybodaeth ar gyfer y maen prawf hwn yn wybodaeth gyhoeddus ac felly penderfynodd nad yw'n rhesymol mynnu bod enwebwyr yn ei darparu eu hunain; yn hytrach cynhelir yr asesiad gan y DfT (ar gyfer parthau PSZ) a'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) ar gyfer yr ardal o fewn y safle a ddarperir gan yr enwebydd. **Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf dewisol hwn.** Fodd bynnag, fe'u hanogir i wirio pa mor agos yw symudiadau awyrennau sifil at y safle a enwebir (fel y'i pennir yn A1 ac A2), lle bo'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus. Ceir y wybodaeth hon gan y CAA a gwasanaeth gwybodaeth yr UK Aeronautical Information Service. Mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon o blaid gwrthfesurau neu liniaru, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
D5	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth am weithgareddau milwrol eraill nad ydynt yn dod dan C2 uchod ac (os oes angen) y potensial ar gyfer lliniaru priodol	Bydd C2, sy'n faen prawf gwaharddol, yn cael ei gymhwyso ar gyfer y pum dynodiad o ran parthau ac ardaloedd a nodir uchod. At hynny, mae ar y Llywodraeth eisiau gwybod a yw'r safle yn agos at, neu a allai gael effaith ar, unrhyw asedau eraill sy'n perthyn i'r MoD neu weithgareddau eraill nad ydynt yn dod Adran C2. Os yw'r safle a enwebir yn agos at, neu y gallai effeithio ar, unrhyw asedau eraill sy'n perthyn i'r MoD neu weithgareddau eraill nad ydynt yn dod Adran C2, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr nodi pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, na ddylai'r agosrwydd hwn olygu y dylid diystyru'r safle rhag cael ei ystyried ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon o blaid gwrthfesurau neu liniaru, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir. Ymhlith asedau'r MoD neu weithgareddau milwrol y dylid eu cynnwys yn yr ymateb i Adran D5 y mae (ond heb eu cyfyngu i'r rhain yn unig) safleoedd technegol a throsglwyddyddion, ardaloedd peryglus alltraeth a chyfleusterau niwclear (gan gynnwys porthladdoedd a ddefnyddir gan longau milwrol). Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y posibilrwydd na fydd gan enwebwyr wybodaeth derfynol am yr holl weithgareddau milwrol ger y safle a enwebir (fel y'i pennir yn A1 ac A2). Ceisir cyngor gan yr MoD wrth asesu enwebiadau a chymhwyso'r maen prawf hwn.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
D6	Dewisol Gwybodaeth am safleoedd a ddynodir yn rhai o bwys ecolegol rhyngwladol ac (os oes angen) lefel debygol yr effaith a'r potensial ar gyfer lliniaru priodol	Mae nifer o safleoedd ecolegol ledled y DU sydd, neu a fydd, yn cael eu diogelu rhag effeithiau datblygiad gan ddeddfwriaeth a chytundebau Rhyngwladol ac Ewropeaidd. Natura 2000 yw'r rhwydwaith o ardaloedd a warchodir ledled Ewrop a sefydlwyd gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/ EEC) ac a ddynodwyd er cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau sy'n brin, mewn perygl, yn fregus neu'n endemig o fewn y Gymuned Ewroeaidd. Mae'r 'safleoedd Natura 2000' hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) a ddynodir dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA) a ddynodir dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt (79/409/EEC). Trosir y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i gyfraith y DU, yng Nghymru a Lloegr, trwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc) (Newidiad) 2007 ac yng Ngogledd Iwerddon trwy Reoliadau Cadwraeth Gogledd Iwerddon (Cynefinoedd Naturiol, etc) (Newidiad) (NI) 2007. Mae'n fater o gyfraith bod safleoedd SAC ymgeisiol (cSAC) a safloedd SPA potensial (pSPA) yn cael eu hystyried dan delerau'r Gyfarwyddeb. Polisi'r Llywodraeth yw y dylid rhoi ystyriaeth drwy'r broses SSA i'r canlynol hefyd: safleoedd SAC posib (pSAC), safleoedd SAC drafft (dSAC), a safleoedd SPA potensial (pSPA). At hynny, polisi'r Llywodraeth yw y dylid rhoi ystyriaeth i'r holl safleoedd a ddynodir dan gytundeb Ramsar[44] am eu gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol ('Safleoedd Ramsar') fel rhan o rwydwaith Natura 2000.

[44] Y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol yn arbennig fel Cynefinoedd Adar Dŵr, a fabwysiadwyd fel cytundeb rhynglywodraethol yn Ramsar yn Iran 1971, fel y'i diweddarwyd

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Gall enwebwyr ddod o hyd i fanylion y rhestr lawn o safleoedd Natura 2000 y DU a gwybodaeth am safleoedd a nodweddion (gan gynnwys mapiau a data ffisegol) safleoedd SAC, SPA a Ramsar gan: Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a'r cyrff statudol cyfrifol unigol. www.jncc.gov.uk Lloegr – Natural England www.naturalengland.org.uk Cymru – Cyngor Cefn Gwlad Cymru www.ccw.gov.uk Yr Alban – Scottish Natural Heritage www.snh.org.uk Gogledd Iwerddon – Adran yr Amgylchedd – Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon www.ni-environment.gov.uk
		Ym mis Gorffennaf 2008 cynhaliodd y Llywodraeth Asesiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd i edrych ar effaith lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn unol â'r meini prawf SSA. Bydd rhagor o sgrinio Cyfarwyddeb Cynefinoedd yn digwydd ochr yn ochr â'r broses SSA a bydd yn cynnwys Asesiadau Priodol (lle bo angen) i ystyried y rhestr ddrafft o safleoedd enwebedig a gynhwysir yn yr NPS Niwclear drafft.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Disgwylir i enwebwyr nodi'r safle, nodweddion cymwys ac elfennau bregus penodol ar gyfer safloeoedd Natura 2000 a Ramsar sydd â'r potensial i ddioddef naill ai'n uniongyrchol (e.e. cymryd tir) neu'n anuniongyrchol (e.e. rhyddhau dŵr oeri i afon neu fôr) yn sgil datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle a enwebir. Os effeithir ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar fel hyn, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr roi sylwadau ynghylch lefel debygol yr effaith a nodi pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y dylai fod yn bosib osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau o'r fath yn unol â'r safonau a osodir gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Fel rhan o'r broses asesu, bydd y Llywodraeth yn gofyn barn ymgyngoreion statudol ynghylch safleoedd a enwebir. Anogir enwebwyr i rannu canlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsant gydag ymgyngoreion statudol a chyrff cadwraeth natur eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr ardaloedd wrth ymateb i'r maen prawf hwn ar y ffurflen enwebu.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
D7	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth am safleoedd a ddynodir yn rhai o bwys ecolegol cenedlaethol ac (os oes angen) lefel debygol yr effaith a'r potensial ar gyfer lliniaru priodol	Yn unol â'r maen prawf a ddisgrifir yn D6 uchod ar gyfer safleoedd a ddynodir yn rhyngwladol, mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu defnyddio'r broses SSA i helpu lleihau effeithiau andwyol datblygiadau ar safleoedd a ddynodir yn rhai o bwys ecolegol cenedlaethol. Mae dynodiadau o'r fath yn cynnwys: o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Lloegr, yr Alban a Chymru) /Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Gogledd Iwerddon), gyda rhai ohonynt yn safleoedd Natura 2000 neu Ramsar hefyd ac felly'n dod dan D6; o Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol; o Gwarchodfeydd Natur Morol; o Parthau Cadwraeth Morol; o Ardal o Warchodaeth Arbennig (Lloegr, yr Alban, Cymru) / Hafan Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon); o Ardaloedd Treftadaeth Naturiol (yn yr Alban); o Gorchmynion Calchbalmant; ac o Ardaloedd o Warchodaeth Arbennig (Lloegr, yr Alban, Cymru) / Hafan Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn darparu gwybodaeth am yr holl ddynodiadau statudol gan y cyrff statudol perthnasol: Lloegr – Natural England www.naturalengland.org.uk Cymru – Cyngor Cefn Gwlad Cymru www.ccw.gov.uk Yr Alban – Scottish Natural Heritage www.snh.org.uk Gogledd Iwerddon – Adran yr Amgylchedd – Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon www.ni-environment.gov.uk

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Rhoddir ystyriaeth hefyd i effeithiau posib yn sgil y safleoedd a enwebir, ar fioamrywiaeth a chadwraeth ehangach a buddiannau'r amgylchedd naturiol, yn unigol a chronnus; bydd hyn yn digwydd fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd, sy'n ymgorffori'r SEA, y bydd y Llywodraeth yn ei gynnal yn gyfochrog â'r broses SSA. Bydd casgliadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cyfrannu at yr asesiad SSA. Lle bo enwebiad yn ymwneud ag ardal sy'n cynnwys safle a ddynodir yn un o bwys ecolegol cenedlaethol, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr roi sylwadau ynghylch lefel debygol yr effaith a nodi pam y mae'n rhesymol casglu, ar lefel strategol, y dylai fod yn bosib osgoi neu liniaru unrhyw effaith o'r fath. Fel rhan o'r broses asesu, bydd y Llywodraeth yn gofyn barn ymgyngoreion statudol ynghylch safleoedd a enwebir. Anogir enwebwyr i rannu canlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsant gydag ymgyngoreion statudol a chyrff cadwraeth natur eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr ardaloedd wrth ymateb i'r maen prawf hwn ar y ffurflen enwebu.
D8	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth am ardaloedd sydd o werth o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd ac (os oes angen) lefel debygol yr effaith a'r potensial ar gyfer lliniaru priodol	Mae system gynllunio y DU yn ceisio diogelu, lle bo modd, unrhyw safleoedd ac adeileddau sydd o werth penodol o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd. Er dibenion yr SSA, mae'r rhain yn cynnwys: o Safleoedd Treftadaeth y Byd Unesco; o Henebion Cofrestredig; o Safleoedd Llongddrylliadau a Warchodir; o Parciau Cenedlaethol; o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon); o Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol (yr Alban); o Adeiladau rhestredig; o Ardaloedd Cadwraeth ;ac o Ardaloedd o Bwys Archeolegol.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		Ble'r enwebir safle mewn ardal a all effeithio ar ardal a ddynodir yn un sydd o werth uchel yn genedlaethol o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr roi sylwadau ynghylch lefel debygol yr effaith a nodi pam y mae'n rhesymol casglu, ar lefel strategol, y dylai fod yn bosib osgoi neu liniaru unrhyw effaith o'r fath. Fel rhan o'r broses asesu, bydd y Llywodraeth yn gofyn barn ymgyngoreion statudol ynghylch safleoedd a enwebir. Anogir enwebwyr i rannu canlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsant gydag ymgyngoreion statudol a chyrff cadwraeth natur eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr ardaloedd wrth ymateb i'r maen prawf hwn ar y ffurflen enwebu.
D9	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth i ddangos ei bod yn rhesymol casglu bod y safle a enwebir yn ddigon mawr ar gyfer cynnwys y gweithrediadau	Bydd yn rhaid i enwebwyr ddangos ei bod hi'n rhesymol casglu bod digon o dir o fewn y terfyn a enwebwyd ganddynt ar gyfer gweithrediad diogel o leiaf un orsaf bŵer niwclear newydd. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr gorsafoedd pŵer niwclear newydd ddarparu ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir yn ystod gweithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Felly rhaid i enwebwyr roi cyfrif am hyn wrth bennu'r ardal a enwebir ac yn eu hateb i'r maen prawf hwn. Asesir a oes digon o dir ar gael fel y gellir sicrhau rheolaeth effeithiol dros weithgareddau a mynediad ar, ac o amgylch, gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle a enwebir, gan gyfeirio'n arbennig at y rheoleiddwyr.

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
D10	(Maen prawf dewisol) Gwybodaeth am dechnolegau oeri sy'n debygol o fod yn ddichonadwy	Mae'n rhaid i orsafoedd pŵer niwclear gael oeri addas ar gyfer gweithredu'n ddiogel ac effeithlon. Ymhlith y dewisiadau dichonadwy ar gyfer oeri y mae: o defnydd uniongyrchol o ddŵr môr, llyn neu afon heb dyrau oeri; o defnyddio tyrau oeri, yn nodweddiadol wedi'u cyfuno â safle ar lyn neu afon a chan ddefnyddio cryn dipyn yn llai o ddŵr nag oeri uniongyrchol; ac o oeri yn seiliedig ar aer, gydag anghenion dŵr minimol ond gan ddefnyddio cyfnewidwyr gwres mawr. Mae effeithiau amgylcheddol oeri yn dibynnu llawer ar sensitifrwydd amgylcheddol yr ardal, anghenion oeri yr orsaf bŵer niwclear a dyluniad manwl y system oeri. Gall echdynnu dŵr yn ogystal â gollwng dŵr oeri effeithio ar yr amgylchedd. Bydd rhywfaint o effaith weledol o du tyrau oeri hefyd. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr gynnig gwybodaeth am dechnolegau oeri sy'n ddichonadwy ar gyfer datblygiadau gorsaf bŵer niwclear tebygol o fewn y safle a enwebir. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i enwebwyr esbonio a yw hi'n debygol y bydd angen tyrau oeri ynteu a yw hi'n debygol y byddai'n bosib defnyddio ffurf ar oeri sy'n llai ymwthiol yn weledol. Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, dylai enwebwyr gadw eu hatebion ar lefel strategol. Ni ddylent bennu dyluniadau adweithyddion penodol neu nifer yr adweithyddion a fydd yn cael eu datblygu ar y safle a enwebir. Fodd bynnag, fe ddylent roi sylw i: o a yw hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod yna ffynonellau oeri addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle a enwebir. Os defnyddir dŵr i oeri, dylai'r enwebydd nodi pam y mae o'r farn bod digon o ddŵr i'r diben hwn neu fesurau eraill y mae angen eu sefydlu; o pa effeithiau (gan gynnwys effeithiau gweledol) sy'n debygol o godi yn sgil yr angen am oeri a pham mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod modd rheoli'r effeithiau hyn neu y gellir eu lliniaru;

Adran	Gofyniad	Nodiadau a Chanllawiau
		o a yw hi, ar lefel strategol ac yn amodol ar ystyriaethau lleol, yn rhesymol casglu y bydd gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle a enwebir yn gallu cael ei gweithredu o fewn gofynion amgylcheddol a rheoleiddiol normal; o unrhyw faterion a all effeithio ar yr oeri dros gyfnod oes yr orsaf bŵer niwclear newydd (gan gynnwys newidiadau mewn meteoroleg, hinsawdd, ayb).
E	Datganiad wedi'i lofnodi ac (os oes angen) tystiolaeth bod awdurdod gan y sawl sy'n llofnodi i wneud hynny	Ni fydd enwebiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses SSA oni bai fod y ffurflen enwebu wedi cael ei llofnodi. Os cyflwynir enwebiadau ar ran cwmni neu endid corfforaethol, rhaid cynnwys tystiolaeth bod yr unigolyn sy'n llofnodi'r datganiad yn Gyfarwyddwr y Cwmni, yn Ysgrifennydd y Cwmni, yn bartner neu unigolyn arall ag awdurdod priodol i lofnodi. Fel arall, gallai tystiolaeth wahanol gynnwys cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd yn rhoi awdurdod i'r unigolyn lofnodi'r ffurflen ar ran y cwmni. Lle bo enwebiad ar ran un neu fwy o gwmnïau – er enghraifft, consortiwm – dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan gynrychiolydd o bob un o'r cwmnïau perthnasol a dylid darparu tystiolaeth briodol bod awdurdod priodol gan gan bob un ohonynt i lofnodi'r ffurflen enwebu.
F	Rhestr o'r holl ddogfennau ategol a ddarperir gyda'r enwebiad, yn ogystal â chyfeirnodau unigol	Dylid rhestru'r holl ddogfennau ategol sy'n cael eu darparu gyda'r enwebiad yn y tabl yn adran F y ffurflen enwebu. Yn ogystal, dylid cyfeirio at y dogfennau ar y rhestr hon dan y cwestiwn priodol ar y ffurflen enwebu. Hefyd, dylai enwebwyr gynnwys cyfeirnod dogfen (e.e. "001") ar gyfer pob dogfen ategol ar wahân y maent yn ei chynnwys a dylai'r cyfeirnod hwn ymddangos yn eglur yn y tablau perthnasol a chael ei nodi'n eglur ar flaen pob un o'r dogfennau ategol eu hunain. Ni fydd y Llywodraeth yn dychwelyd dogfennau a gyflwynwyd fel rhan o'r broses enwebu.